O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 8

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026

Gwnaed *22 Ionawr 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 8

The Council Tax (Discounts, Disregards and Exemptions) (Wales) Regulations 2026

Made *22 January 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

£16.30

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 8

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") a Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ("Deddf 2024").

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn cydgrynhoi darpariaethau yn adrannau 6, 9 ac 11 o Ddeddf 1992, ac Atodlen 1 iddi, Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992, Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992, Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998. Maent hefyd yn nodi darpariaethau penodol yn adrannau 6, 9 ac 11 o Ddeddf 1992, ac Atodlen 1 iddi.

Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol a darpariaethau dehongli.

Mae Rhan 2 yn rhagnodi'r swm o ddisgownt y dreth gyngor mewn perthynas â meddiannaeth a dosbarthau penodol ar anheddau nad ydynt wedi eu meddiannu. Yn benodol maent yn rhagnodi swm disgownt pan fo gan annedd feddiannydd sengl, swm disgownt pan ddiystyrir holl feddianwyr annedd (gweler Rhan 3 ynghylch hynny), a gostyngiadau penodol sy'n gysylltiedig ag anheddau.

Mae Rhan 3 yn rhagnodi dosbarthau o bersonau a ddiystyrir at ddibenion disgownt y dreth gyngor o dan Ran 2.

Mae Rhan 4 yn rhagnodi eithriadau (ar gyfer rhai dosbarthau o bersonau a ddiystyrir at ddibenion disgownt y dreth gyngor) rhag bod yn atebol am y dreth gyngor ar y cyd ac yn unigol.

Mae Rhan 5 yn rhagnodi esemptiadau rhag bod yn atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas â dosbarthau penodol ar anheddau.

Mae Rhan 6 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer diwygiadau a dirymiadau canlyniadol.

Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi.

Mae Atodlenni 2 a 3 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â myfyrwyr a sefydliadau addysgol rhagnodedig.

Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau a dirymiadau sy'n ganlyniadol ar y Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 8

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026

Gwnaed *22 Ionawr 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

CYNNWYS

RHAN 1
CYFFREDINOL
1. Enwi, dod i rym a chymhwyso
2. Dehongli

RHAN 2
DISGOWNTIAU
3. Disgowntiau ar gyfer meddianwyr sengl
4. Disgowntiau pan fo pob meddiannydd wedi ei ddiystyru
5. Darpariaeth ar gyfer diystyriadau disgownt
6. Disgowntiau sy'n gysylltiedig ag anheddau
7. Anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

RHAN 3
DIYSTYRIADAU
8. Personau a ddiystyrir at ddibenion disgownt
9. Personau o dan gadwad
10. Amhariad gwybyddol sylweddol
11. Personau y mae budd-dal plant yn daladwy mewn cysylltiad â hwy
12. Myfyrwyr
13. Myfyrwyr: hawl i dystysgrif addysg a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys
14. Priod, partner sifil a dibynnydd i fyfyriwr
15. Personau sy'n ymadael â'r ysgol a'r coleg
16. Cleifion ysbyty
17. Cleifion mewn cartrefi yng Nghymru a Lloegr
18. Gweithwyr gofal
19. Preswylwyr anheddau penodol
20. Pencadlysoedd rhyngwladol a sefydliadau amddiffyn
21. Lluoedd ar ymweliad
22. Diplomyddion a phersonau sy'n elwa o imiwnedd diplomyddol
23. Cymunedau crefyddol
24. Personau sy'n ymadael â gofal
25. Personau o Wcráin

RHAN 4
DATGYMHWYSO ATEBOLRWYDD AR Y CYD AC YN UNIGOL
26. Datgymhwyso atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol
RHAN 5
ANHEDDAU ESEMPT
27. Anheddau esempt
28. Dehongli
29. Dosbarthau ar anheddau esempt
RHAN 6
DIWYGIADAU A DIRYMIADAU CANLYNIADOL
30. Diwygiadau a dirymiadau canlyniadol

ATODLEN 1 — Anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi
ATODLEN 2 — Prentisiaid, myfyrwyr a myfyrwyr nyrsio
Rhan 1 — Prentisiaid
Rhan 2 — Myfyrwyr
Rhan 3 — Myfyrwyr nyrsio
Rhan 4 — Dehongli
ATODLEN 3 — Sefydliadau addysgol rhagnodedig
ATODLEN 4 — Diwygiadau a dirymiadau canlyniadol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 4(3), a 113(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 6(4C)(b)(ii)(**3**) ac 11E(1)(**4**) o'r Ddeddf honno ac adran 22(1)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024(**5**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adrannau 6(4D) ac 11E(7) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**6**), gosodwyd drafft o'r offeryn Statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 1992 p. 14. Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 4 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14) ("Deddf 1992") i wneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4). Gweler y diffiniad o "prescribed" yn adran 116(1) o Ddeddf 1992. Diwygiwyd adran 113(1) a (2) gan adran 80(4) a (5) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) Mewnosodwyd adran 6(4C)(b)(ii) yn Neddf 1992 gan adran 18(2)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 (dsc 6).

(**4**) Mewnosodwyd adran 11E(1) yn Neddf 1992 gan adran 18(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

(**5**) 2024 dsc 6.

(**6**) Mewnosodwyd adrannau 6(4D) ac 11E(7) yn Neddf 1992 gan adran 18(2)(c) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, yn y drefn honno. Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026 heblaw'r darpariaethau a ganlyn a ddaw i rym ar 26 Ionawr 2026 at ddibenion cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny—

(a) rheoliad 1;

(b) rheoliad 30 i'r graddau y bo'n ymwneud â pharagraffau 10 ac 11 o Atodlen 4;

(c) paragraff 10 o Atodlen 4;

(d) paragraff 11 o Atodlen 4.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" yn adran 1(2)(b) o Ddeddf 1992;

ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("*council tax reduction scheme*") yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**7**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "annedd" yr ystyr a roddir i "dwelling" yn adran 3 o Ddeddf 1992;

mae i "annedd drethadwy" yr ystyr a roddir i "chargeable dwelling" yn adran 4(2) o Ddeddf 1992;

ystyr "caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi" ("*leave to enter or remain in the United Kingdom*"), mewn perthynas â pherson ("P"), yw person—

(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i'w gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol â hynny,

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd

(**7**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), 2014/513, 2014/825 (Cy. 83), 2014/852, 2015/44 (Cy. 3), 2015/971, 2016/50 (Cy. 21), 2017/46 (Cy. 20), 2018/14 (Cy. 7), 2019/11 (Cy. 5), 2020/16 (Cy. 2), 2021/34 (Cy. 9), 2022/51 (Cy. 19), 2022/634, 2022/1329, 2023/47 (Cy. 6), 2023/1071, 2024/56 (Cy. 16) a 2025/59 (Cy. 17).

Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol â hynny,

(iii) wedi cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd teuluol o dan y rheolau mewnfudo(**8**),

(iv) wedi cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, neu

(v) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol,

(b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi wedi dod i ben neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben neu y mae apêl yn yr arfaeth o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(**9**) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i P gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;

mae i "carafán" yr ystyr a roddir i "caravan" yn adran 29(1) o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960(**10**);

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

mae i "y dreth gyngor" yr ystyr a roddir i "council tax" yn adran 1(1) o Ddeddf 1992;

ystyr "myfyriwr" ("*student*") yw person sy'n—

(a) cynorthwyydd iaith dramor, o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 2,

(b) person sy'n ymgymryd â chwrs addysg llawnamser, o fewn ystyr paragraffau 3 a 4 o'r Atodlen honno, neu

(c) person sy'n ymgymryd â chwrs addysg cymhwysol, o fewn ystyr paragraffau 5 a 6 o'r Atodlen honno;

mae i "myfyriwr nyrsio" ("*student nurse*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 7 o Atodlen 2;

ystyr "person cymhwysol" ("*qualifying person*") yw person a fyddai'n atebol (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ac yn unigol â pherson arall neu â phersonau eraill) am y dreth gyngor mewn cysylltiad â'r annedd o dan sylw ar ddiwrnod penodol oni bai am y Rheoliadau hyn;

mae i "prentis" ("*apprentice*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 1 o Atodlen 2;

(**8**) Gwneir y rheolau mewnfudo o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

(**9**) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan baragraff 26(a) a (b) o Atodlen 1 i O.S. 2010/21, a pharagraff 47(3) a (4) o Atodlen 9 i Ddeddf Mewnfudo 2014 (p. 22). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**10**) 1960 p. 62.

ystyr “sefydliad” (“*institution*”) yw’r sefydliadau hynny yng Nghymru a Lloegr sydd, mewn perthynas â myfyrwyr a myfyrwyr nyrsio, yn sefydliadau addysgol rhagnodedig o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 3.

RHAN 2
DISGOWNTIAU

Disgowntiau ar gyfer meddianwyr sengl

3. Mae swm y dreth gyngor sy’n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw annedd drethadwy ac unrhyw ddiwrnod(**11**) yn ddarostyngedig i ddisgownt sy’n hafal i 25% o’r swm hwnnw os ar y diwrnod hwnnw—

(a) dim ond un preswylydd o’r annedd sydd ac nid yw’r preswylydd hwnnw i’w ddiystyru at ddibenion disgownt, neu

(b) mae dau neu ragor o breswylwyr o’r annedd ac mae pob un ohonynt ac eithrio un i’w diystyru at y dibenion hynny.

Disgowntiau pan fo pob meddiannydd wedi ei ddiystyru

4. Mae swm y dreth gyngor sy’n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw annedd drethadwy ac unrhyw ddiwrnod yn ddarostyngedig i ddisgownt sy’n hafal i 50% o’r swm hwnnw os ar y diwrnod hwnnw—

(a) mae un neu ragor o breswylwyr o’r annedd, a

(b) mae pob un ohonynt i’w diystyru at ddibenion disgownt.

Darpariaeth ar gyfer diystyriadau disgownt

5. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth i bersonau gael eu diystyru at ddibenion disgownt o dan reoliadau 3 a 4.

Disgowntiau sy’n gysylltiedig ag anheddau

6. Mae swm y dreth gyngor sy’n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw annedd drethadwy ac unrhyw ddiwrnod yn ddarostyngedig i ddisgownt sy’n hafal i 50% o’r swm hwnnw os ar y diwrnod hwnnw mae’r annedd heb ei feddiannu ac—

(a) mae’n cynnwys llain a feddiannir gan garafán, neu angorfa a feddiannir gan gwch, neu

(b) mae person cymhwysol mewn perthynas â’r annedd honno yn berson cymhwysol mewn perthynas ag annedd arall sydd iddo ef yn gysylltiedig â swydd.

Anheddau sy’n gysylltiedig â swyddi

7. Mae annedd yn gysylltiedig â swydd i berson os yw’n dod o fewn y disgrifiad ym mharagraff 1 neu 2 o Atodlen 1.

(**11**) Gweler adran 2 o Ddeddf 1992 mewn perthynas ag atebolrwydd i dreth a bennir ar sail ddyddiol.

RHAN 3

DIYSTYRIADAU

Personau a ddiystyrir at ddibenion disgownt

8. Diystyrir person at ddibenion disgownt o dan reoliadau 3 a 4 ar unrhyw ddiwrnod os ar y diwrnod hwnnw mae'n bodloni unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau o bersonau a nodir yn y Rhan hon.

Personau o dan gadwad

9.—(1) Person sydd—

(a) wedi ei gadw'n gaeth mewn carchar (o fewn ystyr adran 53 o Ddeddf Carchardai 1952(**12**));

(b) wedi ei gadw'n gaeth mewn unrhyw le arall yn rhinwedd gorchymyn llys yn y Deyrnas Unedig;

(c) wedi ei gadw'n gaeth yn rhinwedd gorchymyn neu ddyfarniad (p'un a yw gan lys ai peidio) a wnaed yn unrhyw le mewn achos mewn cysylltiad â throsedd gwasanaeth o fewn ystyr "service offence" yn adran 50(2) o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006(**13**);

(d) wedi ei ryddhau dros dro o dan adran 28 o Ddeddf Carchardai 1952(**14**), neu wedi ei ryddhau dros dro o dan reolau a wnaed o dan adran 47(**15**) o'r Ddeddf honno;

(e) wedi ei ryddhau dros dro o dan reolau a wnaed o dan adran 300 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006;

(f) wedi ei gadw'n gaeth o dan baragraff 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Mewnfudo 1971(**16**);

(**12**) 1952 p. 52. Mae diwygiadau i adran 53 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**13**) 2006 p. 52. Diwygiwyd adran 50 gan baragraff 3(2) a (4) o Atodlen 4 i Ddeddf y Lluoedd Arfog 2011 (p. 18) a pharagraff 5 o Atodlen 14 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 (p. 2).
(**14**) Diwygiwyd adran 28 gan Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (p. 21).
(**15**) Diwygiwyd adran 47 gan Atodlen 4 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1961 (p. 39), adran 66(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967 (p. 80), paragraff 33 o Atodlen 8 i Ddeddf Llysoedd 1971 (p. 23), paragraff 7 o Atodlen 14 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48), adran 6 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p. 33), adran 16(3) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 9 iddi, ac adran 2(1) o Ddeddf Carchardai (Profi Sylweddau) 2021 (p. 18).
(**16**) 1971 p. 77. Diwygiwyd paragraff 2 gan baragraff 1(b) o Atodlen 10 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982, paragraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 (p. 41), adran 34 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Hawlwyr, etc) 2004 (p. 19), adran 53 o Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 60(11) o Ddeddf Mewnfudo 2016 (p. 19) a pharagraff 21(2) o Atodlen 10 iddi, ac adran 12(2) o Ddeddf Mudo Anghyfreithlon 2023 (p. 37). Mae darpariaethau diwygio eraill nad ydynt wedi eu cychwyn eto.

(g) wedi ei gadw'n gaeth o dan Ran 2(**17**) neu adran 47(**18**), 48(**19**) neu 136(**20**) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;

(h) wedi ei garcharu o dan adran 29 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 neu sydd yn y ddalfa gwasanaeth o fewn ystyr "service custody" yn adran 29 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 a, phan fo person yn y ddalfa, mae'r cyfnod yn y ddalfa yn ffurfio rhan o gyfnod parhaus am dros 48 o oriau.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo person yn cael ei gadw'n gaeth o dan adran 76 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**21**), neu adran 108(1)(a) neu (b) o Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(**22**) , am ddiffygdaliad dirwy.

(3) Ym mharagraff (1), mae "gorchymyn" yn cynnwys dedfryd, cyfarwyddyd, gwarant neu ddulliau eraill o roi effaith i benderfyniad gan y llys o dan sylw.

Amhariad gwybyddol sylweddol

10.—(1) Person—

(a) sy'n agored i amhariad gwybyddol sylweddol o fewn yr ystyr a roddir ym mharagraff (2),

(b) y nodir mewn tystysgrif ymarferydd meddygol cofrestredig ei fod wedi bod neu ei fod yn debygol o fod yn agored i amhariad gwybyddol sylweddol mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod sy'n cynnwys y diwrnod, ac

(c) a chanddo hawl i un neu ragor o'r budd-daliadau cymhwysol a restrir ym mharagraff (3) neu sy'n bodloni'r gofynion ym mharagraff (4) neu (5).

(2) Mae person yn agored i amhariad gwybyddol sylweddol os oes ganddo gyflwr meddwl difrifol a pharhaol, neu newid niwrolegol difrifol a pharhaol, sy'n effeithio ar allu'r ymennydd i weithredu ac sy'n cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol yr unigolyn hwnnw.

(3) Y budd-daliadau cymhwysol y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(c) yw—

(a) lwfans gweini o dan adran 64(**23**) o'r Ddeddf honno;

(b) lwfans anabledd difrifol o dan adran 68(**24**) o'r Ddeddf honno;

(**17**) 1983 p. 20. Diwygiwyd Rhan 2 gan Ddeddf Plant 1989 (p. 41), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p. 19), Deddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p. 17), Deddf Iechyd Meddwl (Cleifion yn y Gymuned) 1995 (p. 52), Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43), Deddf Plant 2004 (p. 31), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43), Deddf Iechyd Meddwl 2007 (p. 12), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), O.S. 1991/1881, 2007/961 (Cy. 85), 2008/2833 a 2010/813. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**18**) Diwygiwyd adran 47 gan baragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Troseddau (Dedfrydau) 1997 (p. 43), paragraff 18 o Atodlen 10 i Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 (p. 28), paragraff 97 o Atodlen 16 i Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006, ac adran 4(7) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (p. 12) a pharagraff 10 o Atodlen 1 a Rhan 1 o Atodlen 11 iddi.

(**19**) Diwygiwyd adran 48 gan adran 62(10)(a) o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002, paragraff 8 o Ran 17 o Atodlen 1 i Ddeddf Cyfreithiau Statud (Diddymiadau) 2004 (p. 14), ac adran 5(3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 a pharagraff 11 o Atodlen 1 iddi.

(**20**) Diwygiwyd adran 136 gan adran 44(3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 a pharagraff 10(b) o Atodlen 2 iddi, ac adran 80(4) i (7), 81(5) a 82(3) o Ddeddf Plismona a Throseddu 2017 (p. 3).

(**21**) 1980 p. 43. Diwygiwyd adran 76 gan baragraff 46 o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15) a pharagraff 49(a) o Atodlen 10 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

(**22**) 2000 p. 6. Diwygiwyd adran 108 gan baragraff 163 o Atodlen 24 i Ddeddf Dedfrydu 2020 (p. 17).

(**23**) Diwygiwyd adran 64 gan adran 66(1) o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30), paragraff 41 o Atodlen 1 i Ddeddf Pensiynau 2007 (p. 22), a pharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5).

(**24**) Diddymwyd adran 68 gan adran 65 o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 ond gyda darpariaethau arbed i'r rhai â hawl i lwfans anabledd difrifol am ddiwrnodau yn union cyn 6 Ebrill 2001 (gweler erthygl 4 o O.S. 2000/2958).

(c) elfen ofal lwfans byw i'r anabl o dan adran 71(**25**) o'r Ddeddf honno, sy'n daladwy ar y gyfradd uchaf o dan adran 72(4)(a) neu'r gyfradd ganol o dan adran 72(4)(b) o'r Ddeddf honno;

(d) cynnydd yng nghyfradd pensiwn anabledd person o dan adran 104 o'r Ddeddf honno;

(e) taliad atodol i'r anghyflogadwy o dan Ran 1 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(**26**);

(f) credyd treth gwaith o dan Ddeddf Credydau Treth 2002(**27**) sy'n cynnwys—

(i) elfen anabledd o dan reoliad 9 o Reoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i'w Gael a'r Gyfradd Uchaf) 2002(**28**), neu

(ii) elfen anabledd difrifol o dan reoliad 17(**29**) o'r Rheoliadau hynny;

(g) elfen byw dyddiol y taliad annibyniaeth personol o dan adran 78 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**30**);

(h) taliad annibyniaeth y lluoedd arfog o dan erthygl 24A o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011(**31**);

(i) lwfans gweini cyson o dan—

(i) erthygl 14 o Gynllun Anafiadau Personol (Sifiliaid) 1983(**32**), neu

(ii) erthygl 8 o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth Lluoedd y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006(**33**);

(j) lwfans i'r anghyflogadwy o dan—

(i) erthygl 18 o Gynllun Anafiadau Personol (Sifiliaid) 1983(**34**), neu

(ii) erthygl 12 o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth Lluoedd y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006(**35**);

(k) cymhorthdal incwm pan fo'r swm cymwys yn cynnwys premiwm anabledd y mae'r amod ychwanegol ym mharagraff 12(1)(b) o Atodlen 2 i Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**36**) wedi ei fodloni mewn cysylltiad ag ef;

(l) credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012, pan fo—

(i) dyfarndal credyd cynhwysol yn cynnwys swm o dan reoliad 27(1) o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013 mewn cysylltiad â'r ffaith bod gan y person o dan sylw alluogrwydd cyfyngedig ar gyfer gwaith ac ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith neu y byddai'n cynnwys swm o'r fath oni bai am reoliad 27(4)(**37**) o'r Rheoliadau hynny, neu

---

(**25**) Diwygiwyd adran 71 gan adran 67(1) o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999.
(**26**) Diwygiwyd Rhan 1 o Atodlen 7 gan baragraff 41(2) o Atodlen 1 ac Atodlen 2 i Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Analluogrwydd i Weithio) 1994 (p. 18), paragraff 43 o Atodlen 8 i Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 (p. 48), paragraff 36(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995 (p. 18), paragraff 52(1) i (4) o Atodlen 24 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, O.S. 2012/823, 2014/560, 2014/3213 a 2019/1458.
(**27**) 2002 p. 21. Diddymwyd credyd treth gwaith gan adran 33(1)(f) o Ddeddf Diwygio Lles 2012 ac eithrio i'r graddau y caiff ei arbed gan O.S. 2019/167.
(**28**) O.S 2002/2005. Amnewidiwyd rheoliad 9 gan O.S. 2003/701. Yr offerynnau diwygio eraill yw O.S. 2003/2815, 2006/217, 2008/1879, 2012/848, 2013/388, 2013/591, 2013/630, 2014/658 a 2021/1286.
(**29**) Diwygiwyd rheoliad 17 gan O.S. 2013/388 a 2013/591.
(**30**) 2012 p. 5.
(**31**) O.S. 2011/517. Mewnosodwyd erthygl 24A gan O.S. 2013/436 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2017/247 a 2025/307.
(**32**) O.S. 1983/686; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2001/420.
(**33**) O.S. 2006/606. Diwygiwyd erthygl 8 gan O.S. 2009/706 a 2024/176.
(**34**) O.S. 1983/686. Diwygiwyd erthygl 18 gan O.S. 1985/1313, 1992/702, 1997/812, 2001/420, 2002/672, 2005/3031, 2006/765 a 2007/646.
(**35**) Diwygiwyd erthygl 12 gan O.S. 2007/909, 2012/359, 2016/374 a 2019/1458.
(**36**) O.S. 1987/1967. Diwygiwyd paragraff 12(1)(b) o Atodlen 2 gan O.S. 2010/1907.
(**37**) O.S. 2013/376. Diwygiwyd rheoliad 27(1) a (4) gan O.S. 2017/204.

(ii) gan y person alluogrwydd cyfyngedig i weithio o fewn ystyr “limited capability” yn rheoliad 39 o’r Rheoliadau hynny.

(4) Y gofynion yn y paragraff hwn yw—

(a) bod y person o dan sylw wedi cyrraedd oedran pensiwn fel y’i diffinnir at ddibenion Rhannau 1 i 4 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, a

(b) pe na bai wedi cyrraedd oedran pensiwn byddai ganddo hawl i un o’r budd-daliadau a restrir ym mharagraff (3).

(5) Y gofynion yn y paragraff hwn yw—

(a) bod y person o dan sylw yn berson y mae ei bartner yn cael lwfans ceisio gwaith, a

(b) yn rhinwedd analluogrwydd y person o dan sylw i weithio, mae’r swm cymwys o dan reoliad 83(**38**) neu 84(**39**) o Reoliadau Lwfans Ceisio Gwaith 1996 yn cynnwys premiwm sydd i’w ganfod o dan baragraff 14(1)(d) neu (g)(**40**) o Atodlen 1 i’r Rheoliadau hynny.

Personau y mae budd-dal plant yn daladwy mewn cysylltiad â hwy

11.—(1) Person—

(a) 18 oed neu’n hŷn, ond

(b) mewn perthynas ag ef y mae gan berson arall hawl i fudd-dal plant neu y byddai ganddo hawl felly oni bai am baragraff 1(c) o Atodlen 9 i Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae i “budd-dal plant” yr ystyr a roddir i “child benefit” yn adran 141 o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**41**).

Myfyrwyr

12. Person sy’n fyfyriwr, yn fyfyriwr nyrsio neu’n brentis.

Myfyrwyr: hawl i dystysgrif addysg a’r wybodaeth sydd i’w chynnwys

13.—(1) Fel tystiolaeth bod person yn fyfyriwr neu’n fyfyriwr nyrsio at ddibenion rheoliad 12, rhaid i sefydliad, ar gais, roi tystysgrif o dan y rheoliad hwn i unrhyw berson sy’n dilyn neu, yn ddarostyngedig i baragraff (3), sydd wedi dilyn cwrs addysg yn y sefydliad hwnnw fel myfyriwr neu fyfyriwr nyrsio.

(2) Yr wybodaeth y mae’n ofynnol ei chynnwys mewn tystysgrif yw—

(a) enw a chyfeiriad y sefydliad addysgol rhagnodedig y mae’r dystysgrif yn cael ei dyroddi ganddo,

(b) enw llawn y person y’i dyroddir iddo,

(c) ei ddyddiad geni,

(d) datganiad sy’n ardystio ei fod yn dilyn neu wedi dilyn cwrs addysg fel myfyriwr neu fyfyriwr nyrsio, ac

(**38**) O.S. 1996/207. Diwygiwyd rheoliad 83 gan O.S. 2001/3767, 2003/455, 2003/1121, 2009/3228 a 2017/725.
(**39**) Diwygiwyd rheoliad 84 gan O.S. 1996/1516, 2001/3767, 2003/455, 2003/1121, 2009/3228 a 2017/725.
(**40**) Diwygiwyd paragraff 14(1)(g) gan O.S. 1996/1516, 2013/388, 2022/177, 2024/919 a 2025/227.
(**41**) Diwygiwyd adran 141 gan adran 1(1) o Ddeddf Budd-dal Plant 2005 (p. 6).

(e) y dyddiad pan ddaeth yn fyfyriwr neu'n fyfyriwr nyrsio yn y sefydliad a'r dyddiad pan ddaeth ei gwrs i ben, neu y disgwylir i'w gwrs ddod i ben.

(3) Caiff sefydliad wrthod cydymffurfio â chais a wneir fwy na blwyddyn ar ôl i'r person sy'n ei wneud roi'r gorau i ddilyn cwrs addysg yn y sefydliad hwnnw.

Priod, partner sifil a dibynnydd i fyfyriwr

14. Person—

(a) sy'n briod, yn bartner sifil neu'n ddibynnydd i fyfyriwr,

(b) nad yw'n ddinesydd Prydeinig, ac

(c) sy'n cael ei atal, gan delerau ei ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, rhag cymryd cyflogaeth â thâl neu hawlio budd-daliadau.

Personau sy'n ymadael â'r ysgol a'r coleg

15.—(1) Person—

(a) 19 oed neu'n iau, a

(b) sydd, o fewn y cyfnod perthnasol, wedi peidio ag ymgymryd â chwrs addysg llawnamser neu gwrs addysg cymhwysol.

(2) Yn y rheoliad hwn, rhaid i'r diwrnod o dan sylw fod o fewn yr un cyfnod perthnasol â'r cyfnod y peidier ag ymgymryd â'r cwrs ynddo.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "cwrs addysg llawnamser" a "cwrs addysg cymhwysol" yr un ystyr ag a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 2;

(b) ystyr "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod ar ôl 30 Ebrill a chyn 1 Tachwedd mewn unrhyw flwyddyn.

Cleifion ysbyty

16.—(1) Person sy'n glaf ac y mae ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa mewn ysbyty.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ysbyty" yw—

(a) ysbyty gwasanaeth iechyd o fewn ystyr "health service hospital" yn adran 275(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**42**) neu adran 206(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**43**);

(b) uned neu sefydliad milwrol, awyrlu neu lyngesol lle y darperir triniaeth feddygol neu lawfeddygol ar gyfer personau sy'n ddarostyngedig i gyfraith gwasanaeth o fewn ystyr "subject to service law" yn adran 374 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006.

Cleifion mewn cartrefi yng Nghymru a Lloegr

17.—(1) Person—

(a) y mae ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa mewn cartref gofal, ysbyty annibynnol neu hostel yng Nghymru neu Loegr, a

(**42**) 2006 p. 41. Diwygiwyd adran 275(1) gan baragraff 138(2)(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**43**) 2006 p. 42, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) sy'n derbyn gofal neu driniaeth (neu'r ddau) yn y cartref gofal, ysbyty annibynnol neu hostel.

(2) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cartref gofal" ("*care home*") yw—

(a) cartref gofal yn Lloegr o fewn ystyr "care home" yn adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**44**);

(b) adeilad neu ran o adeilad y darperir llety ynddo neu ynddi o dan adran 18 neu 19 o Ddeddf Gofal 2014(**45**);

(c) man lle y mae gwasanaeth cartref gofal, o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**46**), yn cael ei ddarparu yn gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau 18 oed neu'n hŷn;

(d) adeilad neu ran o adeilad lle y darperir llety i bersonau 18 oed neu'n hŷn o dan adran 35 neu 36 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**47**);

ystyr "hostel" ("*hostel*") yw—

(a) mangre a gymeradwywyd o dan adran 13(1) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007(**48**);

(b) adeilad neu ran o adeilad—

(i) a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i ddarparu llety preswyl, heblaw am mewn setiau ar wahân a hunangynhwysol o fangreoedd, ynghyd â gofal personol, ar gyfer personau sydd angen gofal personol o'r fath oherwydd henaint, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn y gorffennol neu yn y presennol, neu anhwylder meddwl yn y gorffennol neu yn y presennol, a

(ii) nad yw'n gartref gofal nac yn ysbyty annibynnol;

ystyr "ysbyty annibynnol" ("*independent hospital*") yw—

(a) ysbyty o fewn ystyr "hospital" yn adran 275(1)(**49**) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 nad yw'n ysbyty gwasanaeth iechyd yn yr ystyr a roddir i "health service hospital" fel y'i diffinir yn yr adran honno;

(b) ysbyty o fewn ystyr "hospital" a roddir yn adran 2(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**50**).

Gweithwyr gofal

18.—(1) Person sydd—

(**44**) 2000 p. 14. Diwygiwyd adran 3 gan baragraff 4(3) o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), a pharagraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2).

(**45**) 2014 p. 23.

(**46**) 2016 dccc 2. Diwygiwyd paragraff 1 gan adran 29(1)(a)(ii) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1) a pharagraff 2(6) o Atodlen 1 iddi.

(**47**) 2014 dccc 4.

(**48**) 2007 p. 21. Diwygiwyd adran 13 gan adran 1(2) o Ddeddf Mangreoedd Cymeradwy (Profi Sylweddau) 2022.

(**49**) Diwygiwyd y diffiniad o "health service hospital" gan baragraff 138(2)(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Mae diwygiadau eraill i adran 275 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**50**) Gweler adran 2(3) am eithriadau i'r diffiniad o "health service hospital" ac adran 121(1) am ystyr "health service hospital".

(a) yn ymwneud â darparu gofal neu gymorth (neu'r ddau) i berson arall neu bersonau eraill, a

(b) yn bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff (2).

(2) Yr amodau yw bod y person yn—

(a) darparu gofal neu gymorth (neu'r ddau) i berson sydd â hawl i un neu ragor o'r budd-daliadau a ganlyn—

(i) lwfans gweini uwch o dan adran 65(**51**) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;

(ii) elfen ofal lwfans byw i'r anabl o dan adran 71 o'r Ddeddf honno, sy'n daladwy ar y gyfradd uchaf o dan adran 72(4)(a) neu'r gyfradd ganol o dan adran 72(4)(b) o'r Ddeddf honno;

(iii) cynnydd yng nghyfradd ei bensiwn anabledd o dan adran 104 o'r Ddeddf honno;

(iv) lwfans gweini cyson o dan erthygl 14 o Gynllun Anafiadau Personol (Sifiliaid) 1983, neu o dan erthygl 8 o Orchymyn Pensiynau Gwasanaeth y Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr Etc. (Anabledd a Marwolaeth) 2006;

(v) cyfradd safonol neu gyfradd ychwanegol o elfen byw dyddiol y taliad annibyniaeth personol o dan adran 78 o Ddeddf Diwygio Lles 2012;

(vi) taliad annibyniaeth y lluoedd arfog o dan erthygl 24A o Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn (Cynllun Digolledu) 2011,

(b) preswylio yn yr un annedd â'r person y mae'n darparu gofal neu gymorth iddo (neu'r ddau),

(c) darparu'r gofal neu'r cymorth hwnnw (neu'r ddau) am o leiaf 35 o oriau'r wythnos ar gyfartaledd, a

(d) darparu'r gofal neu'r cymorth hwnnw (neu'r ddau) i berson nad yw'n briod iddo, yn bartner sifil iddo, nac yn blentyn (neu lysblentyn) o dan 18 oed iddo.

Preswylwyr anheddau penodol

19.—(1) Person y mae ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa mewn annedd y mae paragraff (2) yn gymwys iddi.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw annedd os—

(a) am y tro y mae'n darparu llety preswyl, pa un ai fel hostel neu loches nos neu fel arall, a

(b) darperir y llety yn bennaf—

(i) heblaw am mewn setiau ar wahân a hunangynhwysol o fangreoedd,

(ii) ar gyfer personau sydd heb gartref sefydlog na ffordd o fyw sefydlog, a

(iii) o dan drwyddedau i feddiannu nad ydynt yn gyfystyr â thenantiaethau.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "hostel" yr ystyr a roddir yn rheoliad 17(2).

Pencadlysoedd rhyngwladol a sefydliadau amddiffyn

20. Person sy'n aelod sifil neu filwrol, o fewn ystyr "civilian member of a headquarters" a "military member of a headquarters" ym mharagraff 1(1) a (3) o'r Atodlen i Ddeddf

(**51**) Diwygiwyd adran 65 gan O.S. 2011/2426.

Pencadlysoedd Rhyngwladol a Sefydliadau Amddiffyn 1964(**52**), o bencadlys a bennir yn Atodlen 2 i Orchymyn Lluoedd ar Ymweliad a Phencadlysoedd Rhyngwladol (Cymhwyso'r Gyfraith) 1999(**53**), neu'n ddibynnydd aelod o'r fath.

Lluoedd ar ymweliad

21. Person sydd â chysylltiad perthnasol â llu ar ymweliad o fewn ystyr adran 12 o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952(**54**).

Diplomyddion a phersonau sy'n elwa o imiwnedd diplomyddol

22.—(1) Person sy'n bodloni'r amodau ym mharagraffau (2) a (3).

(2) Mae'r person yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau canlynol—

(a) person y rhoddir breintiau ac imiwneddau iddo gan adran 2 o Ddeddf Breintiau Diplomyddol 1964(**55**);

(b) person y rhoddir breintiau ac imiwneddau iddo o dan baragraff 5(1) o Ran 2 o'r Atodlen i Ddeddf Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad 1966(**56**);

(c) person y rhoddir breintiau ac imiwneddau iddo gan adran 1 o Ddeddf Cysylltiadau Consylaidd 1968(**57**);

(d) person sydd, mewn perthynas ag unrhyw sefydliad a bennir mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 1(2) o Ddeddf Sefydliadau Rhyngwladol 1968(**58**), o fewn dosbarth o bersonau a grybwyllir yn adran 1(3) o'r Ddeddf honno y mae'r Gorchymyn perthnasol yn ymestyn rhyddhad rhag ardrethi iddo fel y pennir ym mharagraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno;

(e) person y rhoddir breintiau ac imiwneddau iddo gan erthygl 3 neu 4 o Orchymyn Gwledydd y Gymanwlad a Gweriniaeth Iwerddon (Imiwneddau a Breintiau) 1985(**59**);

(f) person sy'n bennaeth unrhyw swyddfa a sefydlwyd fel y disgrifir yn adran 1(1) o Ddeddf Swyddfa Economaidd a Masnach Hong Kong 1996(**60**).

(3) Nid yw'r person yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau a ganlyn—

(a) dinesydd Prydeinig o fewn ystyr "British citizen" yn Rhan 1 o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981(**61**);

(**52**) 1964 p. 5.
(**53**) O.S. 1999/1736.
(**54**) 1952 p. 67. Diwygiwyd adran 12 gan baragraff 14 o Atodlen 15 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (p. 33).
(**55**) 1964 p. 81. Mae adran 2 yn ddarostyngedig i adran 3 o'r Ddeddf. Diwygiwyd adran 2 gan baragraff 24 o Atodlen 27 i Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p. 38), Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p. 18), adran 14(2) o Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 1992 (p. 48) a pharagraff 87 o Atodlen 3 iddi, paragraff 1 o Atodlen 14 i Ddeddf Treth ar Werth 1994 (p. 23), O.S. 1974/164, 1974/823 a 1992/3261. Mae diwygiadau eraill i adran 2 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**56**) 1966 p. 10. Diwygiwyd paragraff 5(1) gan Atodlen 7 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 ac adran 3(a) o Ddeddf Sefydliadau Rhyngwladol 2005 (p. 20) a'r Atodlen iddi. Mae diwygiadau eraill i baragraff 5(1) nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**57**) 1968 p. 18. Diwygiwyd adran 1 gan adran 12(2) o Ddeddf Sefydliadau Rhyngwladol 1968 (p. 48), paragraff 78 o Atodlen 27 i Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p. 38), Atodlen 1 i Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p. 18), paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2), Atodlen 7 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydain 1981, paragraff 89(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyllid (Rhif 2) 1992, paragraff 3 o Atodlen 14 i Ddeddf Treth ar Werth 1994, paragraff 102(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Trethiant (Masnach Drawsffiniol) 2018 (p. 22) ac O.S. 1986/948.
(**58**) 1968 p. 48. Diwygiwyd paragraff 9 o Atodlen 1 gan baragraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2).
(**59**) O.S. 1985/1983.
(**60**) 1996 p. 63.
(**61**) 1981 p. 61.

(b) person o dan amddiffyniad Prydain o fewn ystyr “British protected persons” yn adran 38 o’r Ddeddf honno;

(c) dinesydd tiriogaeth dramor Brydeinig o fewn ystyr “British overseas territories citizen” yn Rhan 2 o’r Ddeddf honno;

(d) Gwladolyn Prydeinig (Tramor) neu ddinesydd Tramor Prydeinig o fewn ystyr “British National (Overseas)” a “British Overseas citizen” yn y drefn honno yn adran 50(1)(**62**) o’r Ddeddf honno;

(e) deiliad Prydeinig o fewn ystyr “British subject” yn Rhan 4 o’r Ddeddf honno;

(f) preswylydd parhaol o’r Deyrnas Unedig.

Cymunedau crefyddol

23. Person sydd—

(a) yn aelod o gymuned grefyddol, y mae ei phrif alwedigaeth yn cynnwys gweddïo, myfyrio, addysg, lleddfu dioddefaint, neu unrhyw gyfuniad o’r rhain, a

(b) heb unrhyw incwm na chyfalaf ei hun (heb ystyried unrhyw incwm ar ffurf pensiwn mewn cysylltiad â chyflogaeth flaenorol) ac sy’n ddibynnol ar y gymuned i ddiwallu ei anghenion materol.

Personau sy’n ymadael â gofal

24. Person sydd—

(a) yn 24 oed neu’n iau, a

(b) yn berson ifanc categori 3 o fewn ystyr adran 104(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Personau o Wcráin

25. Person sy’n dal caniatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi—

(a) a roddwyd o dan Gynllun Noddi Cartrefi i Wcráin yn Atodiad Cynllun Wcráin i’r Rheolau Mewnfudo(**63**), neu

(b) a roddwyd o dan Gynllun Estyn Caniatâd Wcráin(**64**) yn yr Atodiad hwnnw,

pan fo a chyhyd ag y mae’r person yn byw gyda noddwr neu letywr o dan y naill gynllun neu’r llall.

(**62**) Mewnosodwyd y diffiniad o “British overseas territory” yn adran 50(1) gan adran 1(1)(a) o Ddeddf Tiriogaethau Tramor Prydeinig 2002 (p. 8). Mae’r rhestr o diriogaethau i’w chael yn Atodlen 6 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981. Mewnosodwyd y diffiniadau o “British National (Overseas)” a “British Overseas citizen” yn adran 50(1) gan O.S. 1986/948.

(**63**) Mae Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 11.1 i UKR 20.2 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r Rheolau Mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/apply-for-a-visa-under-the-ukraine-sponsorship-scheme.

(**64**) Mae Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin wedi ei nodi o dan baragraffau UKR 29.1 i UKR 38.1 o Atodiad Cynllun Wcráin i’r Rheolau Mewnfudo (https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme). Mae canllawiau’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’r cynllun hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/applying-to-the-ukraine-permission-extension-scheme.

RHAN 4

DATGYMHWYSO ATEBOLRWYDD AR Y CYD AC YN UNIGOL

Datgymhwyso atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol

26. Rhagnodir y personau a ganlyn at ddibenion adrannau 6(4) a 9(2) (datgymhwyso atebolrwydd ar y cyd ac yn unigol) o Ddeddf 1992—

(a) unrhyw berson sy'n dod o fewn y disgrifiad yn rheoliad 10 (amhariad gwybyddol sylweddol);

(b) unrhyw berson sy'n dod o fewn y disgrifiad yn rheoliad 12 (myfyrwyr);

(c) unrhyw berson sy'n dod o fewn y disgrifiad yn rheoliad 24 (personau sy'n ymadael â gofal).

RHAN 5

ANHEDDAU ESEMPT

Anheddau esempt

27. Mae'r anheddau yn y Rhan hon wedi eu rhagnodi o dan adran 4 o Ddeddf 1992 fel anheddau sy'n esempt rhag yr atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

Dehongli

28. Yn y Rhan hon—

mae i "awdurdod bilio" yr ystyr a roddir i "billing authority" yn adran 1(2)(b) o Ddeddf 1992;

mae i "contract meddiannaeth" ("*occupation contract*") yr ystyr a roddir yn adran 7 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**65**);

ystyr "deiliad contract" ("*contract-holder*") yw person a chanddo, mewn perthynas ag annedd yng Nghymru—

(a) contract meddiannaeth, y mae ei ddyddiad meddiannu o fewn y 12 mis blaenorol,

(b) contract diogel o fewn ystyr adran 8(2) o'r Ddeddf honno, neu

(c) contract safonol rhagarweiniol o fewn ystyr adran 16(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "dyddiad meddiannu" ("*occupation date*"), mewn perthynas â chontract meddiannaeth, yw'r diwrnod y mae gan y deiliad contract hawl i ddechrau meddiannu'r annedd;

ystyr "eiddo sengl" ("*single property*") yw eiddo a fyddai'n un annedd o fewn ystyr "one dwelling" yn adran 3 o Ddeddf 1992 heblaw am y ffaith ei fod wedi ei gynnwys yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Trethadwy) 1992(**66**);

(**65**) 2016 dccc 1.
(**66**) O.S. 1992/549.

ystyr "person Wcreinaidd perthnasol" ("*relevant Ukrainian person*") yw person sy'n dal caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd o dan Gynllun Noddi Cartrefi i Wcráin yn Atodiad Cynllun Wcráin i'r Rheolau Mewnfudo neu Gynllun Estyn Caniatâd Wcráin yn yr Atodiad hwnnw;

ystyr "tenant" ("*tenant*") yw person sydd mewn perthynas ag annedd yng Nghymru yn denant statudol annedd o fewn ystyr "statutory tenant" yn adran 2 o Ddeddf Rhenti 1977(**67**) neu adran 4 o Ddeddf Rhenti (Amaethyddiaeth) 1976(**68**).

Dosbarthau ar anheddau esempt

29. Mae annedd yn annedd esempt ar ddiwrnod penodol os ar y diwrnod hwnnw mae'n dod o fewn un o'r dosbarthau canlynol—

Dosbarth A

(1) Annedd sy'n bodloni'r gofyniad a nodir ym mharagraff (2) oni bai ei bod wedi bod yn annedd o'r fath am gyfnod parhaus o 12 mis neu fwy sy'n dod i ben yn union cyn y diwrnod o dan sylw (ond gweler paragraff (5)).

(2) Y gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw bod yr annedd heb ei meddiannu a bod—

(a) angen gwneud gwaith atgyweirio mawr er mwyn gallu byw ynddi, neu fod y gwaith hwnnw yn mynd rhagddo,

(b) gwaith addasu strwythurol yn mynd rhagddo,

(c) gwaith atgyweirio mawr wedi mynd rhagddo er mwyn gallu byw ynddi, os oes llai na 6 mis wedi mynd heibio ers y dyddiad y cwblhawyd y gwaith yn sylweddol ac nad yw'r annedd wedi ei meddiannu o hyd ers y dyddiad hwnnw, neu

(d) gwaith addasu strwythurol wedi mynd rhagddo, os oes llai na 6 mis wedi mynd heibio ers y dyddiad y cwblhawyd y gwaith addasu yn sylweddol ac nad yw'r annedd wedi ei meddiannu o hyd ers y dyddiad hwnnw.

(3) Ym mharagraff (2), mae "gwaith atgyweirio mawr" yn cynnwys gwaith atgyweirio strwythurol.

(4) Wrth ystyried a yw annedd heb ei meddiannu am unrhyw gyfnod a bennir yn y Dosbarth hwn, mae unrhyw gyfnod unigol nad yw'n fwy na 6 wythnos, pan oedd wedi ei meddiannu, i'w ddiystyru.

(5) Pan fo person ("P") yn prynu annedd ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny sydd wedi bod yn esempt yn flaenorol o fewn y dosbarth hwn, bydd esemptiad 12 mis pellach yn gymwys os yw'r amodau a nodir ym mharagraffau (1) a (2) wedi eu bodloni.

(6) Caiff awdurdod bilio ei gwneud yn ofynnol i P roi iddo dystiolaeth o'r pryniant ar ffurf trosglwyddiad cyfreithiol neu weithred berchnogaeth o'r gwerthwr (neu'r perchennog blaenorol) i P gan gynnwys, ar gyfer eiddo cofrestredig, gofnod o newid mewn perchnogaeth wedi ei gofnodi â Chofrestrfa Tir EF.

Dosbarth B

(**67**) 1977 p. 42. Diwygiwyd adran 2 gan O.S. 2023/550 (Cy. 85).
(**68**) 1976 p. 80. Diwygiwyd adran 4 gan baragraff 72 o Atodlen 23 i Ddeddf Rhenti 1977, adrannau 39(4) a 140(2) o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) a pharagraffau 10 i 12 o Atodlen 4, ac Atodlen 18 iddi, a pharagraff 10(2), (3)(a) i (c) a (4) o Atodlen 8 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, O.S. 2019/1458 a 2022/1166.

(1) Annedd, sy'n eiddo i gorff a sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig, sydd heb ei meddiannu ac sydd wedi bod felly am lai na 6 mis ac a feddiannwyd ddiwethaf i hyrwyddo amcanion yr elusen.

(2) Wrth ystyried a yw annedd heb ei meddiannu am unrhyw gyfnod a bennir yn y Dosbarth hwn, mae unrhyw gyfnod unigol nad yw'n fwy na 6 wythnos, pan oedd wedi ei meddiannu, i'w ddiystyru.

Dosbarth C

(1) Annedd nad yw wedi ei meddiannu na'i dodrefnu ac sydd wedi bod felly am lai na 6 mis ers iddi gael ei meddiannu.

(2) Wrth ystyried a yw annedd heb ei meddiannu am unrhyw gyfnod a bennir yn y Dosbarth hwn, mae unrhyw gyfnod unigol nad yw'n fwy na 6 wythnos, pan oedd wedi ei meddiannu, i'w ddiystyru.

(3) Pan fo person ("P") yn prynu annedd ar 1 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny sydd wedi bod yn esempt yn flaenorol o fewn y dosbarth hwn, bydd esemptiad 6 mis pellach yn gymwys os yw'r amodau a nodir ym mharagraff (1) wedi eu bodloni.

(4) Caiff awdurdod bilio ei gwneud yn ofynnol i P roi iddo dystiolaeth o'r pryniant ar ffurf trosglwyddiad cyfreithiol neu weithred berchnogaeth o'r gwerthwr (neu'r perchennog blaenorol) i P gan gynnwys, ar gyfer eiddo cofrestredig, gofnod o newid mewn perchnogaeth wedi ei gofnodi â Chofrestrfa Tir EF.

Dosbarth D

(1) Annedd sydd heb ei meddiannu—

(a) a fyddai, oni bai am ei gadw'n gaeth yn rhywle arall yn yr amgylchiadau a bennir yn rheoliad 9, yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa person ("P") sy'n berchennog neu'n denant neu'n ddeiliad contract mewn perthynas â'r annedd, neu

(b) a oedd yn flaenorol yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa P, os yw wedi ei gadw'n gaeth yn yr amgylchiadau hynny am y cyfnod llawn ers iddi beidio â bod felly.

(2) Ym mharagraff (1), mae annedd i'w hystyried yn annedd sydd heb ei meddiannu os yw ei hunig feddiannydd neu feddianwyr yn bersonau a gedwir yn gaeth yn rhywle arall yn yr amgylchiadau a grybwyllir.

Dosbarth E

Annedd sydd heb ei meddiannu a oedd yn flaenorol yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa person sy'n berchennog neu'n denant neu'n ddeiliad contract mewn perthynas â'r annedd ac y mae ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa, ers i'r annedd beidio â bod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo, wedi bod yn rhywle arall yn yr amgylchiadau a bennir yn rheoliad 16 neu 17.

Dosbarth F

(1) Annedd sydd heb ei meddiannu sydd—

(a) wedi bod heb ei meddiannu ers dyddiad marwolaeth person ("yr ymadawedig"),

(b) yn bodloni un o'r amodau ym mharagraff (2), ac

(c) yn bodloni un o'r amodau a ganlyn—

(i) nid yw'r grant profiant na'r llythyrau gweinyddu mewn perthynas â'r ystad wedi eu cael ac nid yw ail flwydd-ddydd dyddiad y farwolaeth wedi mynd heibio, neu

(ii) mae dyddiad y grant profiant neu'r llythyrau gweinyddu mewn perthynas â'r ystad lai na 12 mis yn ôl.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) yw (ond gweler hefyd baragraff (3))—

(a) roedd gan yr ymadawedig, ar ddyddiad ei farwolaeth, fuddiant rhydd-ddaliadol yn yr annedd, neu fuddiant lesddaliadol yn yr annedd a roddwyd am gyfnod o 6 mis neu fwy, a

(i) nid yw unrhyw berson yn berson cymhwysol mewn cysylltiad â'r annedd, neu

(ii) mae person yn berson cymhwysol mewn cysylltiad â'r annedd gan weithredu yn rhinwedd ei rôl fel ysgutor neu weinyddwr, ac nid oes unrhyw berson yn berson cymhwysol mewn unrhyw rinwedd arall, neu

(b) roedd yr ymadawedig yn denant neu'n ddeiliad contract mewn perthynas â'r annedd ar ddyddiad ei farwolaeth, ac mae ysgutor neu weinyddwr gan weithredu yn rhinwedd ei rôl felly yn atebol am rent neu, yn ôl y digwydd, ffi drwydded, am y diwrnod.

(3) Pan fo dyddiad marwolaeth yr ymadawedig cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, cymerir mai dyddiad y farwolaeth yw'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Dosbarth G

Annedd sydd heb ei meddiannu—

(a) y mae ei meddiannaeth wedi ei gwahardd gan y gyfraith, neu

(b) sy'n parhau i fod heb ei meddiannu yn sgil cymryd camau o dan bwerau a roddir gan neu o dan Ddeddf Senedd y DU neu Ddeddf Senedd Cymru, gyda'r bwriad o wahardd ei meddiannu neu ei chaffael.

Dosbarth H

Annedd sydd heb ei meddiannu a ddelir at ddiben sicrhau ei bod ar gael i'w meddiannu gan weinidog unrhyw enwad crefyddol fel preswylfa i gyflawni dyletswyddau ei swydd ohoni oni bai ei bod wedi bod yn annedd am gyfnod parhaus o 12 mis neu fwy sy'n dod i ben â'r diwrnod o dan sylw.

Dosbarth I

Annedd sydd heb ei meddiannu a oedd yn flaenorol yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa i berson sy'n berchennog neu'n denant neu'n ddeiliad contract mewn perthynas â'r annedd ac y mae ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa, ers i'r annedd beidio â bod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo, at ddiben cael gofal personol sydd ei angen arno oherwydd henaint, anabledd, salwch, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn y gorffennol neu yn y presennol neu anhwylder meddwl yn y gorffennol neu yn y presennol, wedi bod mewn man arall (heb fod yn ysbyty o fewn ystyr rheoliad 16 neu gartref gofal, ysbyty annibynnol neu hostel o fewn ystyr rheoliad 17).

Dosbarth J

Annedd sydd heb ei meddiannu a oedd yn flaenorol yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa person sy'n berchennog neu'n denant neu'n ddeiliad contract mewn

perthynas â'r annedd ac y mae ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa, ers i'r annedd beidio â bod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa iddo, wedi bod mewn man arall at ddiben darparu gofal personol, neu ddarparu gwell gofal personol, i berson sydd angen gofal o'r fath oherwydd henaint, anabledd, salwch, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau yn y gorffennol neu yn y presennol neu anhwylder meddwl yn y gorffennol neu yn y presennol.

Dosbarth K

Annedd sydd heb ei meddiannu—

(a) a feddiannwyd ddiwethaf fel unig breswylfa neu brif breswylfa person cymhwysol ("y meddiannydd diwethaf"), a

(b) y mae pob person cymhwysol mewn perthynas â hi yn fyfyriwr a naill ai—

(i) wedi bod yn fyfyriwr drwy gydol y cyfnod ers i'r meddiannydd diwethaf beidio â meddiannu'r annedd fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa, neu

(ii) wedi dod yn fyfyriwr o fewn 6 wythnos i'r diwrnod ers i'r meddiannydd diwethaf beidio â meddiannu'r annedd fel ei unig breswylfa neu ei brif breswylfa.

Dosbarth L

Annedd sydd heb ei meddiannu pan fo morgeisai yn ei meddu â morgais.

Dosbarth M

Annedd sy'n cynnwys neuadd breswyl a ddarperir yn bennaf i letya myfyrwyr sydd—

(a) yn eiddo i sefydliad addysgol rhagnodedig, neu'n cael ei rheoli gan sefydliad addysgol rhagnodedig o fewn ystyr Atodlen 3, neu sydd yn eiddo i gorff a sefydlwyd at ddibenion elusennol addysgol yn unig neu'n cael ei reoli gan gorff a sefydlwyd at ddibenion elusennol addysgol yn unig, neu

(b) yn destun cytundeb sy'n caniatáu i sefydliad o'r fath enwebu'r mwyafrif o bersonau sydd i feddiannu'r llety fel y'i darperir.

Dosbarth N

(1) Annedd sydd—

(a) wedi ei meddiannu gan un neu ragor o breswylwyr, y mae pob un ohonynt yn bersonau perthnasol, neu

(b) wedi ei meddiannu fel llety yn ystod y tymor gan un neu ragor o breswylwyr, y mae pob un ohonynt yn bersonau perthnasol.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) ystyr "person perthnasol" yw—

(i) myfyriwr;

(ii) priod, partner sifil neu ddibynnydd i fyfyriwr sydd ym mhob achos yn berson nad yw'n ddinesydd Prydeinig ac sydd wedi ei atal, gan delerau ei ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, rhag cymryd cyflogaeth â thâl neu hawlio budd-daliadau;

(iii) person y mae rheoliad 15 (personau sy'n ymadael â'r ysgol a'r coleg) yn gymwys iddo;

(iv) pan fo preswylwyr eraill yn yr annedd sy'n dod o fewn paragraff (i), (ii) neu (iii), person Wcreinaidd perthnasol;

(b) mae annedd i'w hystyried yn annedd sydd wedi ei meddiannu gan berson perthnasol fel llety tymor yn ystod unrhyw wyliau pan—

(i) bod ganddo fuddiant rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol yn yr annedd gyfan neu unrhyw ran ohoni, neu drwydded i feddiannu'r annedd gyfan neu unrhyw ran ohoni, a

(ii) ei fod wedi defnyddio'r annedd fel llety yn ystod y tymor neu ei fod yn bwriadu defnyddio'r annedd fel llety yn ystod y tymor.

Dosbarth O

Annedd y mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yn berchen arni, ac a ddelir at ddiben darparu llety i'r lluoedd arfog ac eithrio llety ar gyfer lluoedd ar ymweliad o fewn ystyr adran 12 o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952.

Dosbarth P

Annedd y mae gan o leiaf un person, sy'n berson cymhwysol, mewn cysylltiad â hi gysylltiad perthnasol â llu ar ymweliad, o fewn ystyr adran 12 o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952, ar y diwrnod hwnnw.

Dosbarth Q

Annedd sydd heb ei meddiannu y mae person yn berson cymhwysol mewn perthynas â hi yn rhinwedd ei rôl fel ymddiriedolwr mewn methdaliad o dan Ddeddf Ansolfedd 1986(**69**).

Dosbarth R

Annedd sy'n cynnwys llain neu angorfa nad yw'n cael ei meddiannu gan garafán neu gwch.

Dosbarth S

Annedd sy'n cael ei meddiannu gan berson neu bersonau 17 oed neu'n iau yn unig neu un neu ragor o bersonau o'r fath ynghyd ag un neu ragor o bersonau Wcreinaidd perthnasol.

Dosbarth T

Annedd sydd heb ei meddiannu—

(a) sy'n ffurfio rhan o eiddo sengl sy'n cynnwys annedd arall, a

(b) na chaniateir ei gosod ar wahân i'r annedd arall honno heb dorri rheolaeth gynllunio o fewn ystyr "a breach of planning control" yn adran 171A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**70**).

Dosbarth U

(1) Annedd nad yw ond wedi ei meddiannu gan—

(a) un neu ragor o bersonau sy'n agored i amhariad gwybyddol sylweddol, neu

(b) un neu ragor o bersonau sy'n agored i amhariad gwybyddol sylweddol, ynghyd ag un neu ragor o bersonau perthnasol.

(2) Ym mharagraff (1)—

mae i "amhariad gwybyddol sylweddol" ("*significant cognitive impairment*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10(2);

ystyr "person perthnasol" ("relevant person") yw—

(**69**) 1986 p. 45.

(**70**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 171A gan adran 4(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Mae diwygiadau eraill i adran 171A nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) myfyriwr;

(b) priod, partner sifil neu ddibynnydd i fyfyriwr sydd ym mhob achos yn berson nad yw'n ddinesydd Prydeinig ac sydd wedi ei atal, gan delerau ei ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, rhag cymryd cyflogaeth â thâl neu hawlio budd-daliadau;

(c) person y mae rheoliad 15 (personau sy'n ymadael â'r ysgol a'r coleg) yn gymwys iddo;

(d) person Wcreinaidd perthnasol.

Dosbarth V

(1) Annedd y mae o leiaf un person, sy'n berson cymhwysol, mewn cysylltiad â hi yn bodloni'r amodau a nodir ym mharagraffau (2) i (4).

(2) Mae'r person yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau canlynol—

(a) person y rhoddir breintiau ac imiwneddau iddo gan adran 2 o Ddeddf Breintiau Diplomyddol 1964;

(b) person y rhoddir breintiau a breinryddidau iddo o dan baragraff 5(1) o Ran 2 o'r Atodlen i Ddeddf Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad 1966;

(c) person y rhoddir breintiau a breinryddidau iddo gan adran 1 o Ddeddf Cysylltiadau Consylaidd 1968;

(d) person sydd, mewn perthynas ag unrhyw sefydliad a bennir mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan adran 1(2) o Ddeddf Sefydliadau Rhyngwladol 1968, o fewn dosbarth o bersonau a grybwyllir yn adran 1(3) o'r Ddeddf honno y mae'r Gorchymyn perthnasol yn ymestyn rhyddhad rhag ardrethi iddo fel y pennir ym mharagraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno;

(e) person y rhoddir breintiau a breinryddidau iddo gan erthygl 3 neu 4 o Orchymyn Gwledydd y Gymanwlad a Gweriniaeth Iwerddon (Imiwneddau a Breintiau) 1985;

(f) person sy'n bennaeth unrhyw swyddfa a sefydlwyd fel y disgrifir yn adran 1(1) o Ddeddf Swyddfa Economaidd a Masnach Hong Kong 1996.

(3) Nid yw'r person yn dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau a ganlyn—

(a) dinesydd Prydeinig o fewn ystyr "British citizen" yn Rhan 1 o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981;

(b) person o dan amddiffyniad Prydain o fewn ystyr "British protected persons" yn adran 38 o'r Ddeddf honno;

(c) dinesydd tiriogaeth dramor Brydeinig o fewn ystyr "British overseas territories citizen" yn Rhan 2 o'r Ddeddf honno;

(d) Gwladolyn Prydeinig (Tramor) neu ddinesydd Tramor Prydeinig o fewn ystyr "British National (Overseas)" a "British Overseas citizen" yn y drefn honno yn adran 50(1) o'r Ddeddf honno;

(e) deiliad Prydeinig o fewn ystyr "British subject" yn Rhan 4 o'r Ddeddf honno;

(f) preswylydd parhaol o'r Deyrnas Unedig.

(4) Nid oes unrhyw annedd arall yn y Deyrnas Unedig sy'n brif breswylfa'r person hwnnw, neu yn brif breswylfa y person hwnnw yn y Deyrnas Unedig.

Dosbarth W

(1) Annedd sy'n ffurfio rhan o eiddo sengl sy'n cynnwys o leiaf un annedd arall ac sy'n unig neu'n brif breswylfa perthynas dibynnol i berson sy'n preswylio yn yr annedd arall honno neu un o'r anheddau eraill hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyrir bod perthynas yn ddibynnol os yw'n—

(a) 65 oed neu'n hŷn,

(b) agored i amhariad gwybyddol sylweddol o fewn ystyr rheoliad 10(2), neu

(c) anabl mewn modd sylweddol a pharhaol (pa un a yw hynny drwy salwch, anaf, anffurfiad cynhenid neu fel arall).

(3) Ym mharagraff (1), ystyrir bod person yn berthynas i rywun arall os (ond gweler paragraff (4))—

(a) yw'n briod neu'n bartner sifil i'r person hwnnw;

(b) yw'n rhiant, plentyn, nain neu fam-gu, taid neu dad-cu, ŵyr neu wyres, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb, nai neu nith, hen nain neu hen fam-gu, hen daid neu hen dad-cu, gorwyr neu orwyres, hen ewythr neu hen fodryb, gor-nai neu or-nith i'r person hwnnw;

(c) os yw'n hen hen nain neu hen hen fam-gu, hen hen daid neu hen hen dad-cu, gororwyr neu ororwyres, hen hen ewythr neu hen hen fodryb, goror-nai neu oror-nith y person hwnnw.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys at ddibenion penderfynu a ystyrir bod person yn berthynas i rywun arall ym mharagraff (1)—

(a) mae perthynas drwy briodas neu bartneriaeth sifil i'w thrin fel perthynas waed;

(b) mae perthynas rhwng dau berson sy'n byw gyda'i gilydd fel pe baent yn bâr priod neu'n bartneriaid sifil i'w thrin fel perthynas drwy briodas neu bartneriaeth sifil;

(c) mae llysblentyn person i'w drin fel ei blentyn;

(d) mae plentyn partner sifil person ("A") i'w drin fel plentyn A.

Dosbarth X

(1) Annedd—

(a) a feddiennir gan un neu ragor o bersonau sy'n ymadael â gofal, a

(b) lle y mae pob preswylydd naill ai'n berson sy'n ymadael â gofal, yn berson perthnasol, neu'n berson sy'n agored i amhariad gwybyddol sylweddol.

(2) Ym mharagraff (1)—
mae i "amhariad gwybyddol sylweddol" ("*significant cognitive impairment*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 10(2);
ystyr "person perthnasol" ("relevant person") yw—

(a) myfyriwr;

(b) priod, partner sifil neu ddibynnydd i fyfyriwr sydd ym mhob achos yn berson nad yw'n ddinesydd Prydeinig ac sydd wedi ei atal, gan

delerau ei ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, rhag cymryd cyflogaeth â thâl neu hawlio budd-daliadau;

(c) person y mae rheoliad 15 (personau sy'n ymadael â'r ysgol a'r coleg) yn gymwys iddo;

(d) person Wcreinaidd perthnasol;

"person sy'n ymadael â gofal" ("*care leaver*") yw person sy'n bodloni'r disgrifiad yn rheoliad 24.

Dosbarth Y

(1) Annedd sy'n lloches a ddarperir neu a gomisiynir gan awdurdod lleol a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i letya dros dro ac mewn argyfwng bersonau sydd wedi bod yn destun unrhyw ffurf ar gam-drin, cam-drin domestig, trais ar sail rhywedd neu drais rhywiol.

(2) Ym mharagraff (1), mae i "cam-drin", "cam-drin domestig", "trais ar sail rhywedd" a "trais rhywiol" yr ystyron a roddir yn adran 24(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015(**71**).

RHAN 6

DIWYGIADAU A DIRYMIADAU CANLYNIADOL

Diwygiadau a dirymiadau canlyniadol

30. Mae Atodlen 4 yn cynnwys diwygiadau a dirymiadau canlyniadol.

Mark Drakeford
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
22 Ionawr 2026

(**71**) 2015 dccc 3.

ATODLEN 1

Rheoliad 7

Anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

1.—(1) Mae annedd yn gysylltiedig â swydd i berson os yw'n cael ei darparu ar ei gyfer oherwydd ei gyflogaeth, neu os yw'n cael ei darparu ar gyfer ei briod neu bartner sifil oherwydd cyflogaeth ei briod neu bartner sifil, mewn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn (ond gweler is-baragraff (2))—

(a) pan fo'n angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau ei gyflogaeth yn briodol y dylai'r cyflogai breswylio yn yr annedd;

(b) pan fo'r annedd yn cael ei darparu er mwyn cyflawni dyletswyddau ei gyflogaeth yn well a'i bod yn arferol i gyflogwyr ddarparu anheddau i gyflogeion sy'n ymgymryd â'r math hwnnw o gyflogaeth;

(c) pan fo, oherwydd bygythiad arbennig i ddiogelwch y cyflogai, drefniadau diogelwch arbennig ar waith a bod y cyflogai yn preswylio yn yr annedd fel rhan o'r trefniadau hynny.

(2) Os darperir yr annedd gan gwmni a bod y cyflogai yn gyfarwyddwr yn y cwmni hwnnw neu gwmni cysylltiedig nid yw annedd yn gysylltiedig â swydd ond yn yr achos a ddisgrifir yn is-baragraff (1)(a) neu (b) os—

(a) yw'r gyflogaeth fel cyfarwyddwr sy'n gweithio'n llawnamser,

(b) nad yw'r cwmni yn cynnal masnach ac nad yw ei swyddogaethau yn cynnwys, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, ddal buddsoddiadau neu eiddo arall, neu

(c) yw'r cwmni wedi ei sefydlu at ddibenion elusennol yn unig.

2.—(1) Mae annedd yn gysylltiedig â swydd i berson os yw'n ofynnol i'r person hwnnw neu ei briod neu bartner sifil, o dan gontract a ddisgrifir yn is-baragraff (3), fyw yn yr annedd honno (ond gweler is-baragraff (2)).

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys os yw'r annedd o dan sylw yn cael ei darparu yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan unrhyw berson neu bersonau eraill y mae'r person neu ei briod neu bartner sifil yn cynnal masnach neu fusnes mewn partneriaeth ag ef neu hwy.

(3) Mae contract y mae is-baragraff (1) yn gymwys iddo yn gontract yr ymrwymir iddo hyd braich ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person o dan sylw neu ei briod neu bartner sifil (yn ôl y digwydd) gynnal masnach, proffesiwn neu alwedigaeth benodol mewn annedd a ddarperir gan berson arall ac i fyw mewn annedd a ddarperir gan y person arall hwnnw.

3. Yn yr Atodlen hon—

mae cwmni yn gwmni cysylltiedig cwmni arall os oes gan un ohonynt reolaeth o'r llall neu mae'r ddau o dan reolaeth yr un person;

mae i "cyfarwyddwr" a "cyfarwyddwr sy'n gweithio'n llawnamser", mewn perthynas â chorff corfforedig, yr un ystyr â "director" a "full-time working director" yn y drefn honno ag yn adran 67 o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003(**72**) mewn perthynas â'r cod budd-daliadau;

(**72**) 2003 p. 1.

mae i “rheolaeth” yr un ystyr â “control”, mewn perthynas â chorff corfforedig, ag a roddir yn adran 995 o Ddeddf Treth Incwm 2007(**73**).

ATODLEN 2

Rheoliadau 2 a 15(3)(a)

Prentisiaid, myfyrwyr a myfyrwyr nyrsio

RHAN 1

Prentisiaid

1.—(1) Mae person yn brentis ar ddiwrnod penodol os ar y diwrnod hwnnw mae—

(a) wedi ei gyflogi at ddiben dysgu crefft, busnes, proffesiwn, swydd, cyflogaeth neu alwedigaeth gan gael cyflog neu lwfans neu'r ddau, nad ydynt yn fwy na'r gyfradd fesul awr a nodir yn rheoliad 4A(1)(c) neu (d) o Reoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol 2015(**74**), a

(b) at y diben hwnnw, yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi sy'n arwain at gymhwyster a ddyfernir gan gorff—

(i) a gydnabyddir gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau o dan adran 132 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**75**) mewn cysylltiad â'r cymhwyster, neu

(ii) a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru o dan Ran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015(**76**).

(2) Yn is-baragraff (1)(b), mae person yn ymgymryd â rhaglen ar ddiwrnod penodol os yw'r diwrnod o fewn y cyfnod perthnasol ar gyfer y rhaglen honno.

RHAN 2

Myfyrwyr

Cynorthwyydd iaith dramor

2. Mae person yn gynorthwyydd iaith dramor ar ddiwrnod penodol os—

(a) ar y diwrnod y mae wedi ei gofrestru gyda'r British Council(**77**) fel cynorthwyydd iaith dramor, a

(b) mae'r diwrnod o fewn cyfnod ei benodiad fel cynorthwyydd iaith dramor mewn ysgol neu sefydliad addysgol rhagnodedig o fewn ystyr Atodlen 3.

Cwrs addysg llawnamser

3.—(1) Mae person yn ymgymryd â chwrs addysg llawnamser ar ddiwrnod penodol os—

(**73**) 2007 p. 3.
(**74**) O.S. 2015/621. Mewnosodwyd rheoliad 4A gan O.S. 2016/68. Diwygiwyd paragraff (1)(c) a (d) gan O.S. 2025/401.
(**75**) 2009 p. 22. Diwygiwyd adran 132 gan adran 35(2) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5).
(**76**) 2015 dccc 5. Gweler Rhan 2 ar gyfer sefydlu'r corff corfforedig Cymwysterau Cymru.
(**77**) Mae'r British Council yn gorff elusennol sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 209131) a'r Alban (SC037733) ac mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

(a) ar y diwrnod y mae wedi ei gofrestru at ddiben ymgymryd â chwrs o'r fath gyda sefydliad addysgol rhagnodedig o fewn ystyr Atodlen 3, a

(b) mae'r diwrnod o fewn y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n dechrau'r cwrs ac yn gorffen â'r diwrnod y mae'n peidio ag ymgymryd ag ef.

(2) Mae person i'w ystyried fel ei fod yn peidio ag ymgymryd â chwrs addysg o dan is-baragraff (1)(b) os yw wedi ei gwblhau, wedi rhoi'r gorau iddo neu nad yw'r sefydliad addysgol yn caniatáu iddo ymgymryd ag ef mwyach.

4.—(1) Mae cwrs addysg llawnamser, yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), yn un—

(a) sy'n bodoli am o leiaf un flwyddyn academaidd y sefydliad addysgol o dan sylw neu, yn achos sefydliad addysgol nad oes ganddo flynyddoedd academaidd, am o leiaf un flwyddyn galendr;

(b) y mae'r sefydliad addysgol o dan sylw, mewn perthynas â'r cwrs, fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n ymgymryd ag ef ymgymryd â chyfnodau astudio, dysgu neu brofiad gwaith (pa un ai ar fangre'r sefydliad neu fel arall)—

(i) sy'n para o leiaf 24 o wythnosau ym mhob blwyddyn academaidd neu galendr (yn ôl y digwydd) y mae'n bodoli ynddi, a

(ii) sydd gyda'i gilydd yn cyfateb ym mhob blwyddyn academaidd neu galendr o'r fath i gyfartaledd o 21 o oriau'r wythnos o leiaf.

(2) Wrth benderfynu a yw cwrs yn dod o fewn y diffiniad yn is-baragraff (1)—

(a) wrth gymhwyso paragraff (b) o'r diffiniad hwnnw, mae person i'w drin fel person sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith ar unrhyw adeg os, fel rhan o gwricwlwm y cwrs—

(i) y mae mewn man cyflogaeth ac yn darparu gwasanaethau o dan ei gontract cyflogaeth, neu

(ii) y mae mewn man lle y mae masnach, busnes, proffesiwn neu alwedigaeth arall sy'n berthnasol i destun y cwrs yn cael ei gynnal, ac mae yno at ddibenion magu profiad o'r fasnach honno, y busnes hwnnw, y proffesiwn hwnnw neu'r alwedigaeth arall honno, ac mae cyfeiriadau yn is-baragraff (3) at gyfnodau o brofiad gwaith i'w dehongli yn unol â hynny;

(b) wrth gymhwyso paragraff (b) o'r diffiniad hwnnw—

(i) mae'r flwyddyn galendr gyntaf i'w thrin fel un sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r cwrs yn dechrau, ac mae blynyddoedd calendr dilynol (os oes rhai) i'w trin fel rhai sy'n dechrau ar flwydd-ddydd y diwrnod hwnnw;

(ii) mewn perthynas â chwrs sy'n dechrau rhan o'r ffordd drwy flwyddyn academaidd y sefydliad addysgol o dan sylw, mae'r flwyddyn academaidd i'w thrin fel un sy'n dechrau ar ddechrau'r tymor y mae'r cwrs yn dechrau, ac mae blynyddoedd academaidd dilynol (os oes rhai) i'w trin fel rhai sy'n dechrau ar ddechrau'r tymhorau cyfatebol yn y blynyddoedd hynny;

(iii) mewn perthynas â chwrs sy'n bodoli (neu sy'n cael ei drin fel un sy'n bodoli) heblaw am nifer o flynyddoedd academaidd neu galendr cyflawn (yn ôl y digwydd), mae unrhyw ran o'r cwrs sy'n para am lai na blwyddyn gyflawn i'w diystyru.

(3) Ac eithrio yn achos cwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgolion, nid yw cwrs i'w drin fel cwrs addysg llawnamser os yw'r cyfanswm ar gyfer y cwrs yn ei gyfanrwydd o'r holl gyfnodau o brofiad gwaith y mae fel arfer yn ofynnol ymgymryd â hwy fel rhan ohono yn fwy na chyfanswm yr holl gyfnodau astudio neu ddysgu nad ydynt

yn gyfystyr â phrofiad gwaith sy'n ofynnol fel arfer felly (gan ystyried at y diben hwn unrhyw gyfnod astudio, dysgu neu brofiad gwaith mewn blwyddyn rannol a fyddai'n cael ei ddiystyru o dan is-baragraff (2)(b)(iii)).

Cwrs addysg cymhwysol

5.—(1) Mae person i'w ystyried yn berson sy'n ymgymryd â chwrs addysg cymhwysol ar ddiwrnod penodol os ar y diwrnod hwnnw—

(a) mae'n 19 oed neu'n iau,

(b) nid yw'n ymgymryd â chwrs addysg llawnamser o fewn ystyr paragraffau 3 a 4, ac

(c) mae'r nifer perthnasol o oriau'r wythnos ar gyfer y cwrs hwnnw, neu, os yw'n ymgymryd â 2 neu ragor o gyrsiau cymhwysol gyda'r un sefydliad, gyfanswm y nifer perthnasol o oriau'r wythnos, yn fwy na 12.

(2) Mae person yn ymgymryd â chwrs ar ddiwrnod penodol yn is-baragraff (1) os—

(a) yw'r diwrnod yn dod o fewn y cyfnod perthnasol ar gyfer y cwrs hwnnw, a

(b) nad yw'n brentis.

(3) Mewn perthynas â chwrs addysg cymhwysol, ystyr "y nifer perthnasol o oriau'r wythnos" yw'r nifer cyfartalog o oriau yr wythnos y byddai'n ofynnol i berson sy'n ymgymryd ag ef eu cyflawni fel arfer, yn y cyfnod y mae'r cwrs yn bodoli, ar weithgareddau perthnasol o fewn ystyr paragraff 6 (ac eithrio, at ddiben cyfrifo'r cyfartaledd hwnnw, unrhyw gyfnod o wyliau).

6.—(1) Mae cwrs addysg cymhwysol yn un—

(a) sy'n bodoli am fwy na 3 mis,

(b) nad yw'n gwrs addysg uwch,

(c) y mae'r dysgu mewn cysylltiad ag ef yn digwydd yn bennaf drwy gyfrwng nad yw'n ohebiaeth,

(d) nas ymgymerir ag ef o ganlyniad i swydd neu gyflogaeth a ddelir gan y person o dan sylw, ac

(e) y mae'r gweithgareddau perthnasol (i'r graddau y maent yn cael eu cyflawni fel arfer o dan y cwrs ar adegau penodol) mewn cysylltiad ag ef fel arfer yn cael eu cyflawni'n bennaf rhwng 8.00am a 5.30pm.

(2) Yn is-baragraff (1)—

ystyr "cwrs addysg uwch" ("*course of higher education*") yw unrhyw gwrs o ddisgrifiad a restrir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**78**) neu gwrs sy'n darparu cymhwyster (gan gynnwys cymhwyster proffesiynol) sy'n cyfateb i gymhwyster (neu ran o gymhwyster) a enillir o unrhyw gyrsiau o ddisgrifiad a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf honno;

ystyr "gweithgareddau perthnasol" ("*relevant activities*") yw cael hyfforddiant, ymgymryd ag astudiaethau o dan oruchwyliaeth neu arholiad, a chymryd rhan (fel rhan o gwricwlwm y cwrs) mewn unrhyw ymarfer o dan oruchwyliaeth, arbrawf o dan oruchwyliaeth, prosiect o dan oruchwyliaeth neu waith ymarferol o dan oruchwyliaeth.

(**78**) 1988 p. 40.

RHAN 3

Myfyrwyr nyrsio

7.—(1) Mae person yn fyfyriwr nyrsio ar ddiwrnod penodol os, ar y diwrnod hwnnw, y mae'n ymgymryd â chwrs a fyddai (o'i gwblhau'n llwyddiannus) yn arwain at gofrestriad cyntaf yn y Rhan i Nyrsys neu'r Rhan i Fydwragedd o'r gofrestr a gedwir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o dan erthygl 5 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(**79**).

(2) Ystyrir bod person yn ymgymryd â chwrs yn y paragraff hwn ar ddiwrnod penodol os yw'r diwrnod o fewn y cyfnod perthnasol ar gyfer y cwrs hwnnw.

RHAN 4

Dehongli

8. Yn yr Atodlen hon, ystyr y cyfnod perthnasol ar gyfer cwrs neu raglen yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae person yn dechrau'r cwrs hwnnw neu'r rhaglen honno ac yn dod i ben â'r diwrnod ("y diwrnod olaf") y mae'n ei gwblhau neu'n ei chwblhau, yn rhoi'r gorau iddo neu iddi neu'n cael ei ollwng ohono neu ohoni (gan gynnwys unrhyw gyfnodau o wyliau rhwng tymhorau a chyn y diwrnod olaf).

ATODLEN 3

Rheoliadau 2 a 29 a pharagraff 3(1)(a) o Atodlen 2

Sefydliadau addysgol rhagnodedig

Sefydliadau ar gyfer myfyrwyr a myfyrwyr nyrsio

1. Yn ddarostyngedig i baragraff 2, mae sefydliad yn sefydliad addysgol rhagnodedig yn yr Atodlen hon os yw'n—

(a) sefydliad yn y sector addysg bellach o fewn ystyr "further education sector" yn adran 91(3)(**80**) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu

(b) sefydliad yn y sector addysg uwch o fewn ystyr "higher education sector" yn adran 91(5)(**81**) o'r Ddeddf honno.

2. Nid yw sefydliad hyfforddi yn y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer y lluoedd arfog yn sefydliad addysgol rhagnodedig yn yr Atodlen hon.

(**79**) O.S. 2002/253, a ddiwygiwyd gan O.S. 2008/838 a 2009/1182.
(**80**) 1992 p. 13. Diwygiwyd adran 91(3) gan baragraff 13(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22).
(**81**) Diwygiwyd adran 91(5) gan baragraff 4(2) o'r Atodlen i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (dccc 1) ac O.S. 2019/1027.

ATODLEN 4

Rheoliad 30

Diwygiadau a dirymiadau canlyniadol

Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992

1.—(1) Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) 1992(**82**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1—

(a) yn yr enw, ar ôl "commencement" mewnosoder ", application";

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) This Order applies in relation to England."

(3) Yn erthygl 5(2) hepgorer y geiriau "in England and Wales".

(4) Yn Atodlen 1 hepgorer paragraff 1(1)(b)(iii).

(5) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2, yn y diffiniad o "relevant territory" hepgorer "Wales,".

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(**83**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2)—

(a) ar ôl y diffiniad o "the Act" mewnosoder—

""the 2026 Regulations" means the Council Tax (Discounts, Disregards and Exemptions (Wales) Regulations 2026;";

(b) yn y diffiniad o "discount", fel y mae'n gymwys o ran Cymru, yn lle "section 11 or section 12" rhodder "section 11E(1) or 11F(2)";

(c) hepgorer y diffiniad o "Exempt Dwellings Order" fel y mae'n gymwys o ran Cymru;

(d) yn y diffiniad o "exempt dwelling", fel y mae'n gymwys o ran Cymru, yn lle "Exempt Dwellings Order" rhodder "the 2026 Regulations".

(3) Yn rheoliad 7(3A), ar ôl "the Exempt Dwellings Order" mewnosoder "or regulation 29 of the 2026 Regulations".

(4) Yn rheoliad 10(6)(a), ar ôl "the Exempt Dwellings Order" mewnosoder "or regulation 29 of the 2026 Regulations".

(**82**) O.S. 1992/548, a ddiwygiwyd gan O.S. 1994/543, 1995/619, 1996/636, 1997/656, 2013/388, 2013/680, 2013/638 (Cy. 71), a 2013/1048 (Cy. 110). Mae offerynnau diwygio ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**83**) O.S. 1992/613, a ddiwygiwyd gan O.S. 1992/3008, 2004/785 (Cy. 82), 2013/62 (Cy. 13) a 2014/129 (Cy. 17). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992

3.—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) 1992(**84**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

"(3) These Regulations apply in relation to England."

(3) Hepgorer rheoliadau 4 a 5.

Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992

4.—(1) Mae Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992(**85**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1—

(a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) This Order applies in relation to England."

(3) Yn erthygl 2—

(a) ym mharagraff (1) hepgorer y diffiniad o "contract-holder";

(b) ym mharagraff (3A) hepgorer "in England".

(4) Yn erthygl 3—

(a) yn Nosbarth D, ym mharagraff (1)(a), yn lle ", tenant or contract-holder" rhodder "or tenant";

(b) yn Nosbarth E, yn y geiriau agoriadol, yn lle ", tenant or contract-holder" rhodder "or tenant";

(c) yn Nosbarth F, ym mharagraff (2)(b), hepgorer "or contract-holder";

(d) yn Nosbarth I, yn y geiriau agoriadol, yn lle ", tenant or contract-holder" rhodder "or tenant";

(e) yn Nosbarth J, yn y geiriau agoriadol, yn lle ", tenant or contract-holder" rhodder "or tenant".

(5) Hepgorer "Class X".

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

5.—(1) Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**86**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 7(a), yn lle "section 11" rhodder "section 11E(1)";

(**84**) O.S. 1992/552, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/431 (Cy. 100), 2022/722 (Cy. 160) a 2023/154 (Cy. 23). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**85**) O.S. 1992/558, a ddiwygiwyd gan O.S. 1992/2941, 1994/539, 1995/619, 1997/656, 1998/291, 1999/536, 2000/1025 (Cy. 61), 2004/2921 (Cy. 260), 2005/3302 (Cy. 256), 2019/432 (Cy. 101) 2022/722 (Cy. 160) a 2022/907 (Cy. 198). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**86**) O.S 1993/255, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/460 (Cy. 45) a 2013/63 (Cy. 14). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) ym mharagraff 7(b), yn lle “a determination made under section 12 of the 1993 Act (discounts: special provision for Wales)” rhodder “a determination made under section 11F(2) of the 1992 Act”;

(c) ym mharagraff 8(a), yn lle “an amount equal to the appropriate percentage or (in relation to paragraph 7(a)) twice the appropriate percentage (as the case may be)” rhodder “an amount prescribed or calculated in relation to paragraph 7(a)”.

(3) Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 15(b)(ii), yn lle “section 11” rhodder “section 11E(1)”;

(b) ym mharagraff 15(b)(iii), yn lle “section 12” rhodder “section 11F(1)”;

(c) ym mharagraff 15(c), yn lle “section 12” rhodder “section 11F(1)”;

(d) ym mharagraff 15(c)(i), yn lle “subsection (3) or (4) of section 12 of the 1992 Act shall have effect in substitution for section 11(2)(a) of that Act” rhodder “section 11F(2) of the 1992 Act has effect in substitution of a discount prescribed or calculated under section 11E(1) of that Act”;

(e) ym mharagraff 15(c)(ii), hepgorer “equal to the appropriate percentage within the meaning of section 11(3) of that Act”.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995

6.—(1) Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995(**87**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3), yn y diffiniad o “relevant percentage”, yn lle “discount under section 11 or 12” rhodder “discount under section 11E(1) or 11F(2)”.

(3) Yn rheoliad 3(5), yn lle “the Council Tax (Exempt Dwellings) Order 1992” rhodder “regulation 29 of the Council Tax (Discounts, Disregards and Exemptions) (Wales) Regulations 2026”.

Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004

7. Yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy, Anheddau Esempt a Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2004(**88**), hepgorer erthyglau 3 a 4.

Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a’r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004

8. Yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a’r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004(**89**), hepgorer rheoliad 8.

(**87**) O.S. 1995/2561, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/3094 (Cy. 268) a 2016/969 (Cy. 238). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
(**88**) O.S. 2004/2921 (Cy. 260).
(**89**) O.S. 2004/3094 (Cy. 268).

Diwygio Gorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005

9. Yng Ngorchymyn Deddf Partneriaeth Sifil 2004 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2005(**90**), hepgorer paragraffau 7, 8 a 12 o'r Atodlen.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

10.—(1) Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 3(8), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) y mae Rhan 3 (diystyriadau) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026(**91**) yn gymwys ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i annibynnydd sy'n fyfyriwr o fewn ystyr Rhan 3 o'r Rheoliadau hynny ac Atodlen 2 iddynt;";

(b) ym mharagraff 40(4), yn lle "adran 11 neu 12" rhodder "adran 11E(1) neu 11F(2)".

(3) Yn Atodlen 6—

(a) ym mharagraff 5(8), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) y mae Rhan 3 (diystyriadau) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026 yn gymwys ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i annibynnydd sy'n fyfyriwr o fewn ystyr Rhan 3 o'r Rheoliadau hynny ac Atodlen 2 iddynt;";

(b) ym mharagraff 46(4), yn lle "adran 11 neu 12" rhodder "adran 11(E)(1) neu 11F(2)".

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

11.—(1) Mae'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(**92**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 28(8), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) y mae Rhan 3 (diystyriadau) o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026 yn gymwys ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i annibynnydd sy'n fyfyriwr o fewn ystyr Rhan 3 o'r Rheoliadau hynny ac Atodlen 2 iddynt;";

(3) Ym mharagraff 105(4), yn lle "adran 11 neu 12" rhodder "adran 11(E)(1) neu 11F(2)".

(**90**) O.S. 2005/3302 (Cy. 256).
(**91**) O.S.C. 2026/8.
(**92**) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/513, O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2014/852, O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2), O.S. 2021/34 (Cy. 9), O.S. 2022/51 (Cy. 19), O.S. 2022/634, O.S. 2022/1329, O.S. 2023/47 (Cy. 6), O.S. 2023/1071, O.S. 2024/56 (Cy. 16) a 2025/59 (Cy. 17).

Diwygio Rheoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

12. Yn Rheoliadau Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016(**93**), hepgorer rheoliad 4.

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2019

13. Yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2019(**94**), hepgorer rheoliad 2(4).

Diwygio Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2019

14. Yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2019(**95**), hepgorer erthygl 2.

Diwygio Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022

15. Yn Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2022(**96**), hepgorer paragraff 12 o Atodlen 1.

Dirymiadau

16. Mae'r offerynnau statudol a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998(**97**);

(b) Gorchymyn Treth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2000(**98**);

(c) Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003(**99**);

(d) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004(**100**);

(e) Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007(**101**);

(f) Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2010(**102**);

(g) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2010(**103**);

(h) Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2013(**104**);

(i) Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyriadau Disgownt) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013(**105**);

(**93**) O.S. 2016/236 (Cy. 88).
(**94**) O.S. 2019/431 (Cy. 100).
(**95**) O.S. 2019/432 (Cy. 101).
(**96**) O.S. 2022/907 (Cy. 198).
(**97**) O.S 1998/105.
(**98**) O.S. 2000/1025 (Cy. 61).
(**99**) O.S. 2003/673 (Cy. 83).
(**100**) O.S. 2004/452 (Cy. 43).
(**101**) O.S. 2007/580 (Cy. 52).
(**102**) O.S. 2010/2448 (Cy. 211).
(**103**) O.S. 2010/612 (Cy. 58).
(**104**) O.S. 2013/638 (Cy. 71).
(**105**) O.S. 2013/1048 (Cy. 110).

(j) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2017(**106**);

(k) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Diystyriadau Disgownt ac Anheddau Esempt) (Cymru) 2022(**107**);

(l) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyriadau Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2023(**108**).

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**106**) O.S. 2017/42 (Cy. 18).
(**107**) O.S. 2022/722 (Cy. 160).
(**108**) O.S. 2023/154 (Cy. 23).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 8

COUNCIL TAX, WALES

The Council Tax (Discounts, Disregards and Exemptions) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made by the Welsh Ministers in exercise of their powers under the Local Government Finance Act 1992 ("the 1992 Act") and the Local Government Finance (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act").

In particular, these Regulations revoke and consolidate provisions in sections 6, 9 and 11 of, and Schedule 1 to, the 1992 Act, the Council Tax (Discount Disregards) Order 1992, the Council Tax (Additional Provisions for Discount Disregards) Regulations 1992, the Council Tax (Exempt Dwellings) Order 1992 and the Council Tax (Prescribed Classes of Dwellings) (Wales) Regulations 1998. They also set out certain provisions in sections 6, 9 and 11 of, and Schedule 1 to, the 1992 Act.

Part 1 contains general and interpretation provisions.

Part 2 prescribes the amount of a council tax discount in relation to occupancy and particular classes of unoccupied dwellings. In particular they prescribe the amount of a discount where there is a single occupant of a dwelling, the amount of a discount where all occupants of a dwelling are disregarded (for which see Part 3), and particular dwelling related discounts.

Part 3 prescribes classes of persons who are disregarded for the purposes of a council tax discount under Part 2.

Part 4 prescribes exceptions (for some classes of persons who are disregarded for the purposes of a council tax discount) from being jointly and severally liable for council tax.

Part 5 prescribes exemptions from the liability to pay council tax in relation to particular classes of dwellings.

Part 6 introduces Schedule 4 which makes provision for consequential amendments and revocations.

Schedule 1 makes further provision for job-related dwellings.

Schedules 2 and 3 make further provision in relation to students and prescribed educational establishments.

Schedule 4 contains amendments and revocations which are consequential on these Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Local Government Finance Reform Division, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2026 No. 8

COUNCIL TAX, WALES

The Council Tax (Discounts, Disregards and Exemptions) (Wales) Regulations 2026

Made *22 January 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2)

CONTENTS

PART 1
GENERAL
1. Title, coming into force and application
2. Interpretation
PART 2
DISCOUNTS
